


Llwybr Datblygu'r Gymraeg 2023-24



Bethan Griffiths

bethan.griffiths@pcydd.ac.uk

Darlith 6 (Sesiwn 3)
Dydd Iau, 19^{eg} o Hydref 2023

Cerddi a mwy...

Nod y sesiwn:



- Trafod sut mae llenyddiaeth yn gallu cyfoethogi iaith
- Edrych ar elfennau ieithyddol sy'n codi.



Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

<https://hwb.gov.wales/storage/04cb83d9-7c43-4c4a-8791-c14e4bf627d6/canllawiau-statudol-drafft-ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu.pdf>



Llafaredd yn dosbarth – Cam cynnydd 1

Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm

		Cam cynnydd 1	
Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	• mynegi mwynhad neu ddiddordeb • trafod llun, modelau a gweithrediadau mewn termau syml • ail-adrodd digwyddiad neu brofiad mewn termau syml • siarad yn ddigon clir i gael eu deall gan oedolion a chyfoedion • dynwared bywyd go iawn a phrofiadau dychmygol o fewn gweithgaredd chwarae rôl • dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau trwy hwiangerddi a chaneuon	• mynegi beth yw eu hoff bethau a'u cas bethau • siarad am bethau o'u profiad a rhannu gwybodaeth • defnyddio geiriau, cymalau a brawddegau syml • siarad yn glywadwy • cyfrannu i weithgareddau chwarae rôl gan ddefnyddio iaith berthnasol • dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau, e.e. <i>dau gi, y gath</i>
	Gwranddo	• gwranddo ac ymateb â sylw a chanolbwyntio cynyddol • gwranddo ac ymuno â chaneuon, rhigymau a storïau • ailadrodd stori neu wybodaeth y maent wedi'i glywed mewn termau syml • gofyn cwestiwn priodol am rywbeth sydd wedi'i ddweud	• dangos eu bod wedi gwranddo ar eraill, e.e. <i>wrth dynnu llun</i> • ymuno wrth adrodd/canu rhigymau, caneuon a storïau, eu hailadrodd neu eu dysgu ar y cof, gyda pheth cymorth • gofyn cwestiynau am rywbeth a ddywedwyd
	Cydweithio a thrafod	• cymryd rhan mewn trafodaeth gyda phlant a/neu oedolion • cymryd rhan gydag eraill mewn gweithgareddau.	• cyfnewid syniadau wrth drafod yn unigol ac mewn grwpiau bach, e.e. <i>gyda ffrindiau</i> • cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill, gyda pheth rhyngweithio.

Llafaredd yn dosbarth – Cam Cynnydd 2

Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm

		Cam cynnydd 2		
Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	• mynegi barn ar bnyciau cyfarwydd • siarad am bethau y maent wedi'u llunio neu wedi'u gwneud, gan esbonio'r broses • cynnwys rhai manylion a rhywfaint o eirfa berthnasol i ymhelaethu ar eu syniadau neu eu hadroddiadau • siarad yn glywadwy, gan gyfleu ystyr i wrandawyr sydd y tu hwnt i'w grŵp cyfeillion • mabwysiadu rôl gan ddefnyddio iaith briodol • dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau, e.e. <i>y ferch</i>	• mynegi barn, gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau • ymestyn eu syniadau neu eu hadroddiadau gan drefnu'r hyn y maent yn ei ddweud a chynnwys manylion perthnasol • siarad yn eglur ag ystod o gynulleidfaoedd • mabwysiadu rôl benodol, gan ddefnyddio iaith sy'n briodol mewn sefyllfaoedd strwythuredig • defnyddio ambell dreigl i ymarfer ar lafar, e.e. <i>y bêl, fy mag, i'r dref</i>	• esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio geirfa briodol • trefnu'r hyn y maent yn ei ddweud fel bod y gwrandawr yn gallu dilyn, e.e. <i>pwysleisio pwyntiau allweddol, rhoi esboniad yn ei drefn</i> • siarad yn eglur, gan amrywio'r mynegiant i helpu'r gwrandawr • defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd mwy ffurfiol, e.e. <i>yn ystod y gwasanaeth, siarad ag ymwelydd (gan ddechrau defnyddio tîch)</i> • cadw mewn rôl a chynorthwyo eraill wrth chwarae rôl • defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir fel arfer, e.e. <i>ar ben</i>
	Gwranddo	• gwranddo ar eraill, â sylw cynyddol, gan ymateb yn briodol fel arfer, e.e. <i>dilyn cyfarwyddiadau'n gywir</i> • ymuno wrth adrodd/canu amrywiaeth o rigymau a chaneuon, eu hailadrodd neu eu dysgu ar y cof • ailadrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi eu clywed • dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau i ddod o hyd i ragor o wybodaeth • ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir fel arfer, e.e. <i>Oes? Oes/Nac oes</i>	• gwranddo ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen • ailadrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi eu clywed, gan osod y digwyddiadau yn eu trefn gywir • dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau perthnasol i ddod o hyd i wybodaeth benodol • ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir, e.e. <i>Ydy? Ydy/Nac ydy</i>	• gwranddo'n ofalus a gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn y maent yn ei ddysgu a'r hyn y maent eisoes yn ei wybod • gwirio eu bod yn deall drwy ofyn cwestiynau perthnasol neu gynnig sylwadau perthnasol
	Cydweithio a thrafod	• cyfrannu i sgrysiâu ac ymateb i eraill, gan gymryd eu tro o'u hysgogi • cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill a siarad am yr hyn y maent yn ei wneud.	• cyfrannu i drafodaeth, parhau i ganolbwyntio ar y pwnc a chymryd eu tro i siarad • rhannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwlbiau tasg.	• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth • siarad yn bwrpasol er mwyn cyflawni tasg mewn grŵp.





<https://hwb.gov.wales/api/storage/494f1709-2e35-403b-81c5-29e02e897b5b/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol-taenlen-llythrennedd-llafaredd-ar-draws-y-cwricwlwm-cwricwlwm-2022.pdf>

Cwricwlwm newydd i Gymru



Cwricwlwm Newydd i Gymru!

Y 6 MAES DYSGU A PHROFIAD YW:

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu 	Mathemateg a Rhifedd 	Gwyddoniaeth a Thechnoleg 
Dyniaethau 	Iechyd a Lles 	Celfyddydau Mynegiannol 

Y 3 CYFRIFOLDEB TRAWSGWRICWLAIDD YW

Llythrennedd

Cymhwysedd Digidol

Rhifedd

Y 4 DIBEN ER MWYN CREU:

Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes!

Cyfranwyr, mentrus creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywydau gwaith.

Dinasyddion eangddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru ar byd.

Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau gan wireddu eu dyhestrau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.



**Aspire
2Be.**
info@aspire2be.eu

@TEACHER_IN_TECH

#teachmetuesday

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

<https://hwb.gov.wales/storage/04cb83d9-7c43-4c4a-8791-c14e4bf627d6/canllawiau-statudol-drafft-ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu.pdf>



Yr Hyn sy'n Bwysig mewn leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

Mae llenyddiaeth yn ehangu gorwelion. Mae'n ein hysbrydoli ac yn ein cymell, gan ein helpu hefyd i ddysgu mwy am iaith.

Bydd y Maes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cynnig profiadau llenyddol i ddysgwyr a fydd yn ennyn eu diddordeb a'u dychymyg fel darllenwyr, gwrandawyr, gwylwyr, awduron a llenorion. Byddant nid yn unig yn gallu gwerthfawrogi crefft y llenor ond byddant hefyd yn gallu meithrin eu sgiliau creadigol eu hunain. Byddant yn profi ac yn ymateb i amrywiaeth o lenyddiaeth sy'n rhoi dealltwriaeth iddynt o ddiwylliant, pobl a hanes Cymru yn ogystal â'r byd ehangach. Drwy hyn, wrth i'w dealltwriaeth o'u profiadau, eu credoau a'u diwylliannau eu hunain a phobl eraill wella, caiff dysgwyr gymorth i ddatblygu eu gallu i ddangos empathi. Yn ei dro, bydd hyn yn cyfrannu at eu lles emosiynol a'u lles meddwl. Gyda'i gilydd, bydd y profiadau a gynigir fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad hwn yn tanio dychymyg a chreadigrwydd dysgwyr ac yn helpu i feithrin cariad gydol oes tuag at lenyddiaeth.

Creadigrwydd ac Arloesi

Mae llenyddiaeth yn ysbrydoli creadigrwydd ac mae sgiliau gwranddo, darllen, siarad ac ysgrifennu yn hanfodol er mwyn archwilio syniadau a mynegi safbwyntiau yn Gymraeg, yn Saesneg ac mewn ieithoedd rhyngwladol. Mae deall eu hunaniaeth a'u diwylliant eu hunain drwy ieithoedd, a datblygu agwedd agored tuag at eraill, yn rhoi dewrder i ddysgwyr fentro, arbrofi a defnyddio ieithoedd yn greadigol.



Gwëir y ddau ddatganiad arall o'r hyn sy'n bwysig trwy bopeth a wnaed mewn leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

- Mae dysgu am hunaniaeth a diwylliant drwy ieithoedd yn ein paratoi i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.
- Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

Gwelir sgiliau iaith a dealltwriaeth o hunaniaeth a diwylliant yn cael eu datblygu trwy lenyddiaeth; mae hunaniaeth a diwylliant yn cynnig cyd-destun ar gyfer dysgu ieithoedd.



Y Cwricwlwm ehangach

Ar ben hynny, mae llenyddiaeth yn cynnig cyd-destun amrywiol i Faes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a'r cwricwlwm ehangach, yn ogystal â chyfleoedd i archwilio hunaniaeth a diwylliant.



Trafodwch



Beth ydy cerdd?

Beth ydy bardd?

Beth ydy cerdd?



Darn o farddoniaeth ydy cerdd sydd yn dweud rhywbeth mewn ffordd fachog a chofiadwy.

Beth ydy bardd?

Bardd yw'r person sy'n llunio cerddi.

Gellir adrodd neu ganu cerddi.

Mae bardd yn ysgrifennu barddoniaeth, ac mae awdur yn ysgrifennu rhyddiaith.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru



- Pa fath o gerddi ydych chi'n hoffi?
- Oes gennych chi hoff gerdd?



Bardd Plant Cymru



Mae Cymru'n wlad sy'n nodedig am ei beirdd, ac ers 2000 mae unigolyn wedi ei benodi fel Bardd Plant Cymru bob blwyddyn. Pwrpas y cynllun yw annog plant a phobl ifanc i fwynhau darllen ac ysgrifennu cerddi o bob math.

Allwch chi enwi rhai ohonynt?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Bardd Plant Cymru

Casi Wyn, Bardd Plant Cymru 2021-2023



© Llenyddiaeth Cymru / Lena Jeanne



Gruffudd Owen – Bardd Plant Cymru
2019-21



Nia Morais, Bardd Plant Cymru
2023-2025



Casia Wiliam
(2017-19)

Mwy



Anni Llŷn
(2015-17)

Mwy



Aneirin Karadog
(2013-15)

Mwy



Eurig Salisbury
(2011-13)

Mwy

<https://www.llenyddiaethcymru.org/ein-prosiectau/bardd-plant-cymru/>

Beirdd Plant y gorffennol



Dewi Pws

(2010-11)

Twm Morys

(2009-10)

Ifor ap Glyn

(2008-09)

Caryl Parry Jones

(2007-08)

Gwyneth Glyn

(2006-07)

Mererid Hopwood

(2005-06)

Tudur Dylan Jones

(2004-05)

Ceri Wyn Jones

(2003-04)

Menna Elfyn

(2002-03)

Mei Mac

(2001-02)

Myrddin ap Dafydd

(2000-01)

Gwaith Grŵp – Rhannu Syniadau



Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Wrth gynllunio
cofiwch ystyried pa
sgiliau sy'n cael eu
datblygu.



Camau cynnydd



Cenedl Enwau Technegau Arddull (hwn / hon)

llythyren

sillaf

gair

llinell

adran

pennill

cerdd

syniad

trosiad

rhythm

delwedd

personoliad

cymhariaeth

sill

arddull



Technegau Arddull Trafod Cerddi

y llythyren hon
y sillaf hon
y llinell hon
yr adran hon
y ddelwedd hon
y gyffelybiaeth hon
y gymhariaeth hon
y gerdd hon

y pennill hwn
y gair hwn
y personoliad hwn
y syniad hwn
y trosiad hwn
y rhythm hwn
y darn hwn

y sill hwn/hon
yr arddull hwn/hon



Wrth drafod barddoniaeth cofiwch...

Enw benywaidd yw 'cerdd' :

Y **gerdd** hon / y **cerddi** hyn
Mae'r **gerdd** yn...
Un **gerdd**, dwy **gerdd**, tair **cerdd**.



Enw gwrywaidd yw 'bardd' :

Y **bardd** hwn / y **beirdd** hyn
Mae'r **bardd** yn...
Un **bardd**, dau **fardd**, tri **bardd**.

Enw benywaidd yw 'llynell' :

Y **llynell** hon / y **llynellau** hyn
Mae'r **llynell** yn...
Un **llynell**, dwy **llynell**, tair **llynell**.

Enw gwrywaidd yw 'pennill' :

Y **pennill** hwn / y **penillion** hyn
Mae'r **pennill** yn...
Un **pennill**, dau **bennill**, tri **phennill**.

Hefyd, cofiwch fod ansoddair sy'n dilyn enw benywaidd unigol yn treiglo'n feddal.

Berfau Cryno

Wrth ysgrifennu, mae'n bwysig amrywio'r modd rydych yn dechrau brawddegau, gan osgoi dechrau yn yr un ffordd bob amser

e.e. *Mae'r bardd yn gweld / Mae'r awdur yn clywed / Mae'r gerdd yn sôn...*

Mae'n llawer gwell defnyddio'r **FERF GRYNO**

e.e. *Gwêl y bardd / Clyw'r awdur / Sonia'r gerdd...*

Os nad ydych yn gwybod PWY sy'n gwneud, yna defnyddiwch yr **AMHERSONOL** e.e.

Clywir yr adar yn canu / Dywedir bod y tywydd ar fin troi

Berfau cryno defnyddiol wrth drafod cerddi

Berfenw	3ydd unigol	Amhersonol
gweld	gwêl	gwelir
clywed	clyw	clywir
disgrifio	disgrifia	disgrifir
dweud	dywed	dywedir
awgrymu	awgryma	awgrymir
cyfleu	cyflea	cyfleir
honni	honna	honnir
esbonio	esbonia	esbonir
mynd	â/aiff	eir
dod	daw	deuir
cael	caiff	ceir
sefyll	saif	sefir
cymharu	cymhara	cymherir
agor	egyr	agorir
dangos	dengys	dangosir
mynnu	mynna	mynnir
gwybod	gwyr	gwyddys
troi	try	troir
synhwyro	synhwyra	synhwyrir

Rhai technegau a ddefnyddir mewn cerddi

Odli : dau air sydd yn swnio'n debyg i'w gilydd

Ansoddair : gair sy'n disgrifio

Berfenw : gair sy'n cyfleu gweithred

Berf : gair sy'n cyfleu gweithred ond sydd hefyd yn dweud wrthym **pwyl** a **phryd** sy'n gwneud y weithred

Cymhariaeth / cyffelybiaeth : cymharu rhywbeth â rhywbeth arall

Personoli : rhoi teimladau neu nodweddion person i rywbeth arall

Trosiad : siarad am un peth yn nhermau rhywbeth arall

Ailadrodd : defnyddio'r un gair neu gyfres o eiriau mwy nag unwaith i greu effaith

Cyflythreniad : cytseiniaid yn cael eu hailadrodd ar ddechrau gair mewn llinell


Cerddi fel sbardun i drafod.
Datblygu sgiliau llafar drwy lenyddiaeth.

Wythnos gwrth-fwlio.
DYDD LLUN 14 I DDYDD
GWENER 18 TACHWEDD
2023




Diolch i Dîm Datblygu'r Gymraeg yng Ngheredigion

https://spark.adobe.com/video/UtAzyQVnGs24j?fbclid=IwAR00LvQTFy6cNbRxzsmvV8aOFyB-upSOx7KRD7MCYsTu1p_J6wZfwPZgX3o



Y Cwricwlwm Ehangach...



<http://www.barddoniaeth.cymru>

Adnoddau eraill.



<https://www.barddas.cymru/ne-wyddion-barddas/cyhoeddi-gwasg-beirdd-bach/>

Odliadur



<http://odli.cymru/>




BARD D PLANT CYMRU YN 20 OED



**BARD
PLANT
CYMRU** 20



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL OF WALES



Barddoniaeth a Rhifau



- *Sgram!, Atebol, 2012*



Dewiswch un gerdd.



- Meddyliwch, sut bydddech chi'n cyflwyno'r gerdd i ddosbarth yn yr ysgol?
- Wedyn, defnyddiwch y gerdd fel sbardun i wersi eraill- cynlluniwch weithgareddau ar draws y chwe maes dysgu. Cofiwch nodi y ffocws iaith i bob gweithgaredd hefyd.
- Byddwch chi'n cyflwyno eich cynllun gwaith i weddill y dosbarth ar ddechrau'r ddarlith nesaf.

Dewiswch un o'r cerddi yma o'r gyfrol *Sgram!**

Parti, *Sgram!*, t. 27


Rhannu, *Sgram!*, t. 30

Fy ffrindiau i, *Sgram!*, t. 31

Llygod bach, *Sgram!*, tt. 42-42

Beiciau, *Sgram!*, t. 64

Faint sy ar ôl? *Sgram!*, t. 72



Parti

Parti, parti,
Dw i'n dwlu ar fwyd parti.
Parti, parti,
Rhowch fwy o fwyd i mi.

Un pecyn o greision,
Dwy frechdan ham,
Tair tanjerin,
Pedair brechdan jam...

Pum pizza poeth,
Chwe diod hyfryd,
Saith sosej tew –
Dw i'n dal yn llwglyd!

Wyth cacen flasus –
Dw i'n dechrau chwysu,
Naw sgŵp o hufen iâ.
Deg...

BLYYYYYYYYCH!

O na... dw i wedi chwydu!

Aled Richards

dwlu ar = gwirioni ar – love
dw i'n dal yn llwglyd – I'm still hungry
blasus – delicious
chwysu – sweat
dw i wedi chwydu – I've been sick



Rhannu

Un i fi, un i ti,
Ac mae dau, os rhannwn ni!


Dau i fi, dau i ti,
Ac mae pedwar gyda ni.

Tri i fi, tri i ti,
Wedyn dyma chwech i ni.

Rhannu creision, rhannu llyfrau,
A CDs y grwpiau gorau!

Wyt ti eisiau mwy a mwy?
Eisiau pedair gêm nid dwy?

Rhannwn ni ein pethau i gyd,
Dyma'r ffordd i newid y byd!




Fy ffrindiau i

Un caneri a dwy lygoden,
Tri mochyn cwta, pedair cwningen...

Pum corryn mawr a chwech o bysgod,
Saith aligator, wyth o lyffantod...

Naw anaconda, deg Pecinî:
Faint o ffrindiau sy'n byw yn tŷ ni?


Hedd ap Emlyn



llygoden - mouse
mochyn cwta - Guinea pig

cwningen - rabbit
corryn = pry cop - spider

llyffantod - frogs
faint o? - how many?



Llygod bach

Deg llygoden yn chwarae'n braf,
Syrthiodd un i Afon Taf.
Faint sy ar ôl?

Naw llygoden yn y cae,
Syrthiodd un i dwll – ble mae?
Faint sy ar ôl?

Wyth llygoden yn darllen map,
Syrthiodd un i mewn i'r trap.
Faint sy ar ôl?

Saith llygoden yn y glaw,
Syrthiodd un i mewn i'r baw.
Faint sy ar ôl?

Chwe llygoden yn dringo coeden,
Syrthiodd un i dwll cwningen.
Faint sy ar ôl?

Pum llygoden yn bwyta o'r bin,
Syrthiodd un i mewn i dun.
Faint sy ar ôl?

Pedair llygoden yn mynd i'r tŷ,
Syrthiodd un o flaen y ci.
Faint sy ar ôl?

Tair llygoden ar y bwrdd,
Syrthiodd un yn syth i ffwrdd.
Faint sy ar ôl?

Dwy llygoden yn bwyta cig moch,
Syrthiodd un i mewn i'r sôs coch.
Faint sy ar ôl?

Un llygoden drist ar ôl,
Yn mynd i ffwrdd ar wyliau;
Mae'n dod yn ôl yn hapus iawn
Ar ôl gwneud lot o ffrindiau...

Mae lot o lygod nawr!

Hedd ap Emlyn



llygoden, llygod – mouse, mice
Afon Taf – the river Taff (in Cardiff)
syrthiodd – fell
twll – hole
baw – mud (dirt)
i dwll cwningen – into a rabbit's hole
o flaen – in front of
syrthiodd un yn syth i ffwrdd – one fell off straight away
trist – sad

Beiciau

Un beic coch
a dau feic pinc,
tri beic gwyrdd
ar hyd y ffyrdd...


Pedwar beic brown,
pum beic melyn,
chwe beic gwyn
ar ben y bryn...

Saith beic aur,
wyth beic piws,
naw beic du'n
pasio tŷ ni...

Deg beic glas –
pob un mewn ras!

Pwy fydd yn ennill?

Hedd ap Emlyn



Faint sy ar ôl?

Mae Mr Jones, ein hathro,
Yn ddyn caredig iawn,
Mae'n dod i mewn i'r dosbarth
Yn hapus un prynhawn;
Mae'n dweud, "Wel, blantos annwyl,
Mae gen i trit i chi –
Tri deg darn o siocled
I chi, blant da, a fi.

Un darn i Sam
ac
un i Pam.

Un i Bryn
ac
un i Lyn.

Dau i Annie
am ddysgu i ganu.

Dau i Cen
am waith da dros ben.

Tri i Lee
am fy helpu i.

Dim i Bruce
am gicio'r drws.

Dim i Sal
am farcio'r wal.

Dim i Pat
am dorri'r bat.

Ond...

Deg darn i Aled
am weithio mor galed!

Faint sy ar ôl?

Wel, dwedwch, da chi!
Oes digon i chi a digon i fi?"

Non ap Emlyn

faint sy ar ôl? – how many are left?
caredig – kind
blantos annwyl – dear children
darn – piece
am fy helpu i – for helping me
mor galed – so hard
da chi – for goodness sake
digon – enough